
University of Sheffield
Carers UK – making life better for carers
Centre for Care
University of Birmingham
NHS South Yorkshire Integrated Care Board
NIHR | National Institute for Health and Care Research
UKRI Economic and Social Research Council

# Pam fod y Dangosfwrdd Gofal Di-dâl yn Bwysig







Mae gofalwyr di-dâl yn cefnogi pobl sydd â heriau cysylltiedig ag anabledd, iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, neu henaint.





Mae gofal yn cyffwrdd â bywydau pawb ohonom – mae llawer ohonom yn fwy tebygol o ddod yn ofalwyr di-dâl nag o fod yn berchen ar gartref.





Bydd hanner y menywod wedi bod yn ofalwyr erbyn eu bod yn 46 oed; i ddynion, mae hyn yn 57 oed.





Bob blwyddyn mae 4.3 miliwn o bobl yn y DU yn dod yn ofalwyr di-dâl a dyna ond y rheini yr ydym yn gwybod amdanynt.




Mae'n debygol bod y ffigur gwirioneddol yn llawer uwch.




Yn y DU, mae gofalwyr di-dâl yn arbed swm syfrdanol o £184 biliwn y flwyddyn i'r pwrs cyhoeddus o ran y gefnogaeth maent yn ei darparu.




Gwerth sy'n cyfateb i gyllideb gyfun y GIG ar draws y pedair gwlad.




Gyda miliynau o bobl bellach yn darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos.




Byddai ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn chwalu hebddynt.




Eto i gyd, mae gofalwyr yn aml yn wynebu straen ariannol, dirywiad mewn iechyd, ac ynysigrwydd cymdeithasol. Mae'n bryd cael cydnabyddiaeth a chefnogaeth briodol.




Mae deall gofal di-dâl yn dechrau gyda data clir a hygyrch y gall pawb ei ddefnyddio.



Yn y Centre for Care, rydym wedi gweld fod rhanddeiliaid a phobl â phrofiad bywyd o ofal cymdeithasol yn cael trafferth cael mynediad at wybodaeth y gellid ei defnyddio.





Felly rydym wedi creu'r Dangosfwrdd Gofal Di-dâl.




Wedi'i gynhyrchu ar y cyd â gofalwyr di-dâl, gwneuthurwyr penderfyniadau, a phobl â phrofiad bywyd.




Mae'r offeryn rhyngweithiol hwn yn defnyddio data Cyfrifiad i roi ciplun gweledol, hawdd ei ddefnyddio o ofal di-dâl.




I ddarparu data ar draws Awdurdodau Lleol, Rhyw, Oedran, Cyfeiriadedd rhywiol Statws iechyd ac anabledd, Addysg, Cyflogaeth.



Mae'r data hwn ar gael i bawb, gan gynnig tystiolaeth hollbwysig i'r cyhoedd, elusennau, eiriolwyr, a llunwyr polisi, i sbarduno newid, sicrhau cyllid, a llunio polisïau gwell.




Yn bwysicaf oll, mae'n dangos nad yw gofalwyr di-dâl a'r bobl maent yn eu cefnogi ar eu pen eu hunain.

Archwiliwch y dangosfwrdd:

centreforcare.ac.uk/uuc-dashboard